

Atodiad F – Adroddiad Blynyddol

At Weinidogion Cymru,

Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 - Dyletswyddau Adrodd

Yn unol â'r dyletswyddau o dan Adran 7 (3) a 10 (2) Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, fe welwch isod adroddiad Rhondda Cynon Taf ar gyfer 2021–22.

<p>Y camau a gymerwyd i hyrwyddo'r defnydd o lwybrau teithio llesol.</p>	<p>Yn ystod 2021–22, mae'r Cyngor wedi cymryd rhan yn y gweithgareddau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">• Gweithredu rhaglen barhaus o waith i adnewyddu/gwella rhannau o droedffyrdd ledled y Fwrdeistref Sirol gan gynnwys gosod wynebau newydd, darparu ymylon palmant isel, rheiliau newydd a gwaith lledaenu.• Ymgymryd â'r gwaith o ddileu rhwystrau, mewn lleoliadau dethol ac ar sail achos wrth achos, yn dilyn asesiad o feini prawf ym mhob lleoliad.• Parhau i gymryd rhan mewn mentrau i hyrwyddo RhCT fel cyrchfan ar gyfer cerdded a beicio.• Parhau i gymryd rhan yn y Rhaglen Teithiau Iach (mewn Ysgolion), wedi'i threfnu ar y cyd â Sustrans.• Sicrhau bod tudalennau gwefan y Cyngor ar deithio llesol yn cael eu diweddarau.• Parhau â'r cynllun Beicio i'r Gwaith ar y cyd â Halfords yn rhan o'i Gynllun Buddion ar gyfer Staff.
--------------------------------------------------------------------------	------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

	<ul style="list-style-type: none">• Darparu hyfforddiant beicio o Safonau Cenedlaethol i 801 o ddisgyblion yn 2021–22 drwy roi'r hyfforddiant angenrheidiol i feicwyr ifainc er mwyn iddyn nhw fod yn fwy diogel a mwy cymwys.• Darparu hyfforddiant Kerbcraft/Cerddwyr Ifainc i 2,142 o ddisgyblion yn 2021–22 i roi sgiliau ac ymwybyddiaeth o faterion diogelwch ar y ffordd i ddisgyblion ifainc er mwyn iddyn nhw fod yn gerddwyr mwy diogel.• Gwneud llawer o waith adfer yng Nghwm Rhondda Fach yn dilyn tirlithriad mawr ger Tylorstown a gaeodd lwybr teithio llesol allweddol ar ôl Storm Dennis. Mae cwblhau Camau 1–3 wedi golygu bod modd i'r rhan fwyaf o'r llwybr teithio llesol yma gael ei ailagor. Symud Cam 4 yn ei flaen fel bod modd ailagor y cyfan.• Gwneud gwaith adfer ar wahân gerllaw yn Ynys-hir lle roedd tirlithriad arall wedi arwain at gau'r llwybr teithio llesol yn dilyn tywydd garw. Mae'r llwybr yma bellach wedi ailagor yn llwyr.• Ailosod y bont droed rhwng Stryd Dyfodwg a Theras yr Afon yn Nhreorci i gynnig cyfleuster wedi'i uwchraddio i ddefnyddwyr teithio llesol.• Cynnal gwaith ymgynghori sylweddol ar-lein ac wyneb yn wyneb (mewn lleoliadau cyhoeddus) i gael adborth gan drigolion lleol a rhanddeiliaid am ddrafft y Map Rhwydwaith Teithio Llesol roedd y Cyngor yn ei baratoi fel rhan o'i
--	-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

	ddyletswyddau o dan Deddf Teithio Llesol (Cymru).
Y camau a gymerwyd i sicrhau llwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau a gwelliannau cysylltiedig	<p>Mae'r wybodaeth ganlynol yn cyfeirio at 2021–22.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Datblygu astudiaethau i ymchwilio i'r cydweddu ac adeiladu sy'n bosibl o ran llwybrau teithio llesol newydd yng nghanol trefi Aberdâr, Pontypridd a'r Porth ac i/o'r cymunedau cyfagos. • Cynnal adolygiad o ddarpariaeth a chwmpas y manau parcio beiciau mewn chyfleusterau allweddol ledled Rhondda Cynon Taf. • Ar y cyd â sefydliadau partner, mae achosion busnes ar waith ar gyfer ailagor y twneli rheilffordd segur (rhwng Cwm Rhondda Fawr a Chwm Gwynfi a rhwng Cwm Cynon a Merthyr Tudful) i gerddwyr a beicwyr. • Cyflawni rhagor o gynlluniau 'Llwybrau Diogel mewn Cymunedau' yn Nhonpentre. • Gwneud nifer o welliannau i'r briffordd sydd o fudd i feicwyr, megis gwaith trin wyneb y ffordd mewn gwahanol leoliadau ledled RhCT, adeiladu lonydd newydd ar gyffyrdd allweddol, adnewyddu goleuadau traffig ac atgyweirio gwaith maen i bontydd afonydd a welydd cynnal. • Gweithredu nifer o welliannau i lwybrau troed, pontydd troed, welydd cynnal a manau croesi i wella diogelwch i gerddwyr.
Y costau sydd ynghlwm â llwybrau a chyfleusterau teithio	Dyma'r prif waith a chostau:

llesol newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau cysylltiedig a gynhaliwyd yn y flwyddyn ariannol lawn flaenorol

- £227,000 – atgyweirio pont droed Maes-y-Felin ym Mhont-y-clun.
- £1.152M i ailosod y bont droed rhwng Stryd Dyfodwg a Theras yr Afon yn Nhreorci i gynnig cyfleuster wedi'i uwchraddio i ddefnyddwyr teithio llesol. Yn ogystal â hyn, lledu'r llwybr troed ar hyd Heol yr Orsaf, Treorci. Pwynt mynediad allweddol i ganol y dref.
- £56,000 ar adeiladu croesfan newydd i gerddwyr ar hyd Heol Aberhonddu, Hirwaun yn rhan o gyfleusterau Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif y Cyngor.
- £894,000 ar atgyweiriadau i Bont y Castell Inn, Trefforest (ar gyfer cerddwyr a beicwyr).
- £471,000 i adlinio Llwybr Taith Taf rhwng Trallwng a Chilfynydd i ddod yn fwy gwydn yn ystod tywydd garw.
- £275,000 tuag at ddarparu gwelliannau i lwybrau hamdden yn bennaf sydd â'r potensial i gael eu defnyddio ar gyfer teithiau teithio llesol.
- £1.768 miliwn ar gyfer gwaith paratoi safle cyn gosod pont droed newydd ar draws yr afon a'r rheilffordd yn Stryd y Nant, Ystrad, Cwm Rhondda.
- £187,000 yn rhagor ar gyfer dylunio/adeiladu cyfleusterau croesi ar gyfer defnyddwyr teithio llesol yn Nhrefforest a Llanharan.
- £1.64 miliwn – gwaith gwella/cynnal a chadw i'r

	<p>llwybrau troed yn RhCT. Cafodd cyfanswm o 26 cynllun eu cyflawni.</p> <ul style="list-style-type: none"> • £1.87 miliwn – comisiynu astudiaethau, gwneud gwelliannau a bwrw ymlaen â chamau nesaf y cynlluniau teithio llesol arfaethedig. • £341,800 – cyflawni Cynllun Llwybrau Diogel mewn Cymunedau yn Nhonpentre.
--	---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Yn ogystal â'r uchod, mae'r wybodaeth ganlynol yn rhoi trosolwg o'r isadeiledd sydd wedi'i roi ar waith yn ystod y flwyddyn flaenorol:

<p>Gwariant dangosol ar gyfer llwybrau a chyfleusterau teithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau cysylltiedig wedi'u hariannu'n gyfan gwbl neu'n rhannol gan drydydd parti.</p>	<p>Mae Sustrans wedi nodi rhannau o dir sy'n eiddo iddyn nhw ar hyn o bryd sydd â'r modd, o bosibl, i gydweddu llwybrau teithio llesol newydd (neu gydweddu llwybrau teithio llesol presennol) y mae'r Cyngor yn eu hystyried.</p>
<p>Hyd y llwybrau newydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Cerdded - Beicio - Mannau i Bawb 	<ul style="list-style-type: none"> • Cerdded (llwybrau newydd) 0 cilomedr • Beicio (lonydd ar yr heol) 0 cilomedr • Mannau i Bawb 0.71 cilomedr
<p>Hyd y llwybrau sydd wedi'u gwella:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Cerdded - Llwybrau Beicio - Mannau i Bawb 	<ul style="list-style-type: none"> • Cerdded (llwybrau gwell) tua 15.8 cilomedr • Beicio (lonydd ar yr heol) 0.0 cilomedr • Mannau i Bawb tua 9.6 cilomedr
<p>Cyfleusterau teithio llesol newydd a gwell</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Agoriad cyfleuster newydd 'Disgyrchiant, Parc Beiciau ar gyfer Teuluoedd' ym Mharc Gwledig Cwm Dâr.


Gwybodaeth ychwanegol (dewisol):

Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus eang, mae'r Cyngor yn llunio ei strategaeth a'i bolisi ar gyfer cyflwyno pwyntiau gwefru ar gyfer ceir trydan a beiciau ledled RhCT.

Mae'r Cyngor yn cydweithio'n agos â Thrafnidiaeth Cymru mewn perthynas â'i raglen i gynyddu'r nifer o fannau parcio ar gyfer beicwyr mewn gorsafoedd rheilffordd ym mhob rhan o'r rhwydwaith.

Rydw i'n cadarnhau y bydd yr adroddiad yma'n cael ei gyhoeddi ar-lein, yn unol â Chanllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol (fersiwn 2021).

Llofnod y Prif Weithredwr:



Enw'r Prif Weithredwr:

Chris Bradshaw

Dyddiad cyflwyno i Weinidogion Cymru:

28.09.22